Swansea University
Prifysgol Abertawe

Swansea Employability Academy
Academi Cyflogadwyedd Abertawe

## WORKING IN THE UK

# A GUIDE FOR INTERNATIONAL STUDENTS


myuni.swan.ac.uk/sea

employmentzone@swansea.ac.uk



Funded by:
UKCISA UK Council for International Student Affairs
#WeAreInternational
Grants scheme


Find out more

# WORKING IN THE UK

**International students and graduates are an essential part of the UK labour market. The value you bring to organisations operating in the UK cannot be understated. This competitive job market can, however, seem impossible to access without knowledge of local hiring practices, networks, and cultures.**

To start looking for opportunities you'll need a new CV and cover letter formatted to the expectations of UK employers. Don't make the mistake of using a CV from your home country as there are many differences across cultures in what hiring managers are hoping to find in CVs from new candidates. Our Career Development Course has a great unit on CVs that takes less than an hour to complete.

**Check out our Career Development Course and enrol today:**

## WORK WHILE YOU STUDY:

Working in the UK can not only help you manage your finances but also provides you with a chance to enhance your skills, expand your network, and enrich your overall educational journey. Most student visas will allow a certain number of hours work alongside your degree, normally 20hrs per week in term time and full-time during vacation periods **(check your visa)**.

The biggest sectors employing students for part-time work in the UK are retail (shops and supermarkets), catering (bars and restaurants) and social care (care homes, etc). Large employers will have you complete an online application form on their websites, but many independent businesses hire individuals that pop into their venues in person with a CV. It's worthwhile to both apply for jobs online, and also print off around 20 CVs to deliver in person to shops, restaurants or bars where you'd like to work.

**Don't disregard internships as a potential income stream. Most internships in the UK are paid opportunities.**

**Find internships and part time work on our digital jobs board Employment Zone:**

## FINDING GRADUATE WORK:

Staying in the UK to work is an aspiration for many international students. The process of finding this work can be long and unfamiliar, but employers are looking for new ways to find the talent they so desperately need to grow their businesses.

- **Start Early.** Many graduate roles starting in the summer are advertised as early as the October and November before! Employers will also need time to arrange your visa if they are hoping to sponsor you.
- **Be Opportunity-Aware.** Sign up to receive job notifications on Employment Zone and other jobs boards. Follow employability related social media accounts. Make sure that if your dream job is advertised, you're the first to hear about it.
- **Let them know you're eligible to work in the UK.** Regardless of your visa status now, when you graduate you will either be able to seek sponsorship, or apply for a Graduate Visa.
- **Build a Support Network.** Finding the right graduate opportunities can be tough. Speak to your peers, your lecturers and wider network about the kind of work you're after.

**If you need support, book an appointment with a Career Adviser:**


# ROUTES AND VISAS

Good knowledge of your visa and potential routes to remaining in the UK to work will empower you to have effective conversations with future employers. Many hiring managers have experience of hiring internationally, but others will be relying on your knowledge of the UK immigration system to secure the best option for you. Make sure you check the government website for the most up-to-date information on visas. Most individuals will have the following two options:

## SKILLED WORKER VISA

Many international students see this as the gold standard of what working in the UK could be. For this visa you will be sponsored by a licenced employer to do a specific job. Employers usually cover most of the cost of this visa, which can be high in comparison to a Graduate Visa. Your time working in the UK while on this visa can count towards future applications, for example indefinite leave to remain.

- **Employers need a licence to offer sponsorship.** This can take time to set up and many employers will hire immigration lawyers to help with the process. If an employer isn't already licenced, they may not be able to offer sponsorship at short notice. **Studentcircus.com** is a great resource to help you find already-licenced employers that are advertising roles.
- **Can last up-to 5 years.** This type of visa can be offered for up to 5 years, but can be extended indefinitely. It can also lead to settlement after 5 years, via an indefinite leave to remain.



Applying for graduate roles with companies that are already licenced to offer this visa is a great place to start. If there's a specific employer you want to work with that isn't yet licenced, make sure you work with them to get this process started as soon as possible.

**UK Graduate Route - Post Study Work Visa:**

## GRADUATE VISA

This visa, often referred to as the Post Study Work visa, is a flexible option for international students who have completed a degree or relevant qualification. You don't need sponsorship or any endorsement from an employer or your institution to apply; it's in your hands to do so. For this visa, you would pay the fees including an application fee and an immigration health surcharge. At time of writing these come to just under £2,000.

The graduate visa allows you to work in the UK for two years, extended to three for PhD graduates. You don't have to stay with any particular employer or job, although most graduates use this time to try to find a job that can lead to a sponsored role. This visa, however, is not extendable and will not count towards your indefinite leave to remain in the UK.

*Disclaimer: Visa information changes on a regular basis. Check gov.uk to ensure you have the most up-to-date information.*





# RESOURCES

**We hope this guide has equipped you to start your journey towards a fulfilling career in the UK job market, but this is just the start!** Here are our recommendations for your next steps. Online resources that will allow you to plan your career, develop your skills and find employers looking to hire international students and graduates.

### Career Development Course for International Students

If you haven't already completed our online modules, now is a great time to do so.

### Employment Zone Digital Jobs Board

Exclusive graduate and part time roles for Swansea University students and recent graduates.

### Graduate Support Programme

Offering continued careers and employability support to our alumni community.

### Swansea Employability Academy Career Consultants

Confidential and impartial guidance.

### International@CampusLife

Support, social events and advice for international students.

### UK Council for International Student Affairs

Charity offering support to International Students.

### Student Circus

Global Career Companion for International Students.

### ECareersGrad


Courses for international students on a video-based, interactive career platform.

### UK Government information on Visas

The source for official information from the government.

### Shortlist.me

Get ready for interviews with our online tool.



# ADNODDAU

**Gobeithiwn fod y canllaw hwn wedi dy alluogi i ddechrau ar dy daith tuag at yrfa foddhaus ym marchnad swyddi'r DU, ond dim ond y dechrau yw hyn!** Dyma ein hargymhellion ar gyfer dy gamau nesaf. Adnoddau ar-lein a fydd yn dy alluogi i gynllunio dy yrfa, meithrin dy sgiliau a dod o hyd i gyflogwyr sy'n awyddus i gyflogi myfyrwyr a graddedigion rhyngwladol.

### Cwrs Datblygu Gyrfa i Fyfyrwyr Rhyngwladol

Os nad wyt ti eisoes wedi cwblhau ein modiwlau ar-lein, mae nawr yn amser gwych i wneud hynny.

### Hysbysfwrdd Swyddi Digidol y Parth Cyflogaeth

Rolau graddedig a rhan-amser penodol ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Abertawe a graddedigion diweddar.

### Rhaglen Cymorth i Raddedigion

Mae'n cynnig cymorth gyrfaoedd a chyflogadwyedd parhaus i'n cymuned o gyn-fyfyrwyr.

### Ymgynghorwyr Gyrfaoedd Academi Cyflogadwyedd Abertawe

Arweiniad cyfrinachol a diduedd.

### MyfyrwyrRhyngwladol@BywydCampws

Cymorth, digwyddiadau cymdeithasol a chyngor i fyfyrwyr rhyngwladol.

### Cyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y DU

Elusen sy'n cynnig cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol.

### Student Circus

Cydymaith Gyrfa Byd-eang i Fyfyrwyr Rhyngwladol.

### ECareersGrad

Cyrsiau i fyfyrwyr rhyngwladol ar blatfform gyrfaoedd rhyngweithiol sy'n seiliedig ar fideo.

### Gwybodaeth gan Lywodraeth y DU am Fisâu

Y ffynhonnell gwybodaeth swyddogol gan y llywodraeth.

### Shortlist.me

Gallwch chi baratoi ar gyfer cyfweliadau â'n hofferyn ar-lein.


# LLWYBRAU A FISÂU

Bydd gwybodaeth dda am dy fisa a dy lwybrau posibl i aros yn y DU i weithio yn dy alluogi i gael sgyrsiau effeithiol gyda chyflogwyr yn y dyfodol. Mae gan lawer o reolwyr sy'n recriwtio brofiad o recriwtio'n rhyngwladol, ond bydd eraill yn dibynnu ar dy wybodaeth di am system fewnfudo'r DU i sicrhau'r opsiwn gorau i ti. Gwna'n siŵr dy fod yn edrych ar wefan y llywodraeth i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am fisâu. Bydd gan y rhan fwyaf o bobl y ddau opsiwn canlynol:

### FISA I WEITHWYR CREFFTUS

Mae llawer o fyfyrwyr rhyngwladol yn ystyried mai dyma'r safon aur i anelu ati o ran gweithio yn y DU. Ar gyfer y fisa hon, cei di dy noddi gan gyflogwr trwyddedig i wneud swydd benodol. Mae cyflogwyr fel arfer yn talu'r rhan fwyaf o gost y fisa hon, a all fod yn uchel o'i chymharu â Fisa Graddedigion. Gall dy amser yn gweithio yn y DU wrth fod ar y fisa hon gyfrif tuag at geisiadau yn y dyfodol, er enghraifft caniatâd amhenodol i aros.

- **Mae angen trwydded ar gyflogwyr i gynnig nawdd.** Gall hyn gymryd amser i'w sefydlu a bydd llawer o gyflogwyr yn cyflogi cyfreithwyr mewnfudo i helpu gyda'r broses. Os nad yw cyflogwr eisoes wedi'i drwyddedu, efallai na fydd yn gallu cynnig nawdd ar fyr rybudd. Mae **studentcircus.com** yn adnodd gwych i dy helpu i ddod o hyd i gyflogwyr sydd eisoes wedi'u trwyddedu sy'n hysbysebu swyddi.
- **Gall bara am hyd at 5 mlynedd** Gellir cynnig y math hwn o fisa am hyd at 5 mlynedd, ond gellir ei hestyn am gyfnod amhenodol. Gall hefyd arwain at statws preswylydd sefydlog yn y wlad ar ôl 5 mlynedd, drwy ganiatâd amhenodol i aros.



Mae cyflwyno cais am swyddi i raddedigion gyda chwmnïau sydd eisoes wedi'u trwyddedu i gynnig y fisa hon yn lle gwych i ddechrau. Os oes cyflogwr penodol yr hoffet ti weithio gydag ef nad yw wedi'i drwyddedu eto, gwna'n siŵr dy fod yn gweithio gydag ef i ddechrau'r broses hon cyn gynted â phosibl.

**Llwybr Graddedigion y DU – Fisa Gwaith ar ôl Astudio**

### FISA GRADDEDIGION

Mae'r fisa hon, y cyfeirir ati'n aml fel y Fisa Gwaith Ôl-astudio, yn opsiwn hyblyg i fyfyrwyr rhyngwladol sydd wedi cwblhau gradd neu gymhwyster perthnasol. Nid oes angen nawdd na chymeradwyaeth gan gyflogwr neu dy sefydliad i gyflwyno cais; mae hynny yn dy ddwylo di. Ar gyfer y fisa hon, byddet ti'n talu'r ffioedd gan gynnwys ffi ymgeisio a gordal iechyd mewnfudo. Ar adeg ysgrifennu, mae'r rhain yn costio ychydig o dan £2,000.

Mae'r fisa graddedigion yn caniatáu i ti weithio yn y DU am ddwy flynedd, sy'n ymestyn i dair blynedd ar gyfer graddedigion PhD. Nid oes rhaid i ti aros gydag unrhyw gyflogwr neu swydd benodol, er bod y rhan fwyaf o raddedigion yn defnyddio'r amser hwn i geisio dod o hyd i swydd a all arwain at rôl noddedig. Fodd bynnag, nid oes modd estyn y fisa hon ac ni fydd yn cyfrif tuag at dy ganiatâd amhenodol i aros yn y DU.

*Ymwadiad: Mae gwybodaeth am fisâu yn newid yn rheolaidd. Gwiria yn gov.uk i sicrhau bod gennyt ti'r wybodaeth ddiweddaraf.*





# GWEITHIO YN Y DEYRNAS UNEDIG

**Mae myfyrwyr a graddedigion rhyngwladol yn rhan hanfodol o farchnad lafur y DU. Ni ellir gorbwysleisio'r gwerth rwyt ti'n ei gynnig i sefydliadau sy'n gweithredu yn y DU. Fodd bynnag, gall ymddangos yn amhosib cael mynediad at y farchnad swyddi gystadleuol hon heb wybodaeth am arferion rhwydweithiau a diwylliannau recriwtio lleol.**

I ddechrau chwilio am gyfleoedd, bydd angen CV newydd a llythyr eglurhaol arnat wedi'u llunio i gyd-fynd â disgwyliadau cyflogwyr y DU. Paid â gwneud y camgymeriad o ddefnyddio CV o dy famwlad gan fod llawer o wahaniaethau ar draws diwylliannau yn yr hyn y mae rheolwyr sy'n recriwtio yn gobeithio dod o hyd iddo mewn CVs gan ymgeiswyr newydd. Mae gan ein Cwrs Datblygu Gyrfa uned wych ynghylch CVs sy'n cymryd llai nag awr i'w chwblhau.

**Cymerwch gipolwg ar ein Cwrs Datblygu Gyrfa a chofrestru heddiw**

## GWEITHIO WRTH I TI ASTUDIO:

Gall gweithio yn y DU dy helpu i reoli dy arian a rhoi cyfle i ti wella dy sgiliau, ehangu dy rwydwaith, a chyfoethogi dy daith addysgol gyffredinol. Bydd y rhan fwyaf o fisâu myfyrwyr yn caniatáu i ti weithio nifer penodol o oriau ochr yn ochr â dy radd, fel arfer 20 awr yr wythnos yn ystod y tymor a gwaith amser llawn yn ystod y gwyliau (edrycha ar dy fisa).

Y sectorau mwyaf sy'n cyflogi myfyrwyr i wneud gwaith rhan-amser yn y DU yw manwerthu (siopau ac archfarchnadoedd), arlwyo (bariau a bwytai) a gofal cymdeithasol (cartrefi gofal, etc). Bydd cyflogwyr mawr yn gofyn i ti gwblhau ffurflen gais ar-lein ar eu gwefannau, ond mae llawer o fusnesau annibynnol yn cyflogi unigolion sy'n galw heibio i'w lleoliadau yn bersonol gyda CV. Mae'n werth cyflwyno cais am swyddi ar-lein, a hefyd argraffu tua 20 CV i'w dosbarthu'n bersonol i siopau, bwytai neu fariau lle hoffet ti weithio.

**Paid â diystyru interniaethau fel ffrwd incwm bosibl. Mae'r rhan fwyaf o interniaethau yn y Deyrnas Unedig yn gyfleoedd â thâl.**

**Ddod o hyd i interniaethau a gwaith rhan-amser ar ein bwrdd swyddi digidol, y Parth Cyflogaeth.**

## DOD O HYD I SWYDDI I RADDEDIGION:

Mae aros yn y DU i weithio yn uchelgais i lawer o fyfyrwyr rhyngwladol. Gall dod o hyd i'r gwaith hwn fod yn broses hir ac anghyfarwydd, ond mae cyflogwyr yn chwilio am ffyrdd newydd o recriwtio'r bobl ddawnus y mae eu gwir angen arnynt i feithrin eu busnesau.

- **Dechreua'n gynnar.** Mae llawer o rolau graddedig sy'n dechrau yn yr haf yn cael eu hysbysebu mor gynnar â'r mis Hydref a'r mis Tachwedd blaenorol! Bydd angen amser ar gyflogwyr hefyd i drefnu dy fisa os ydynt yn gobeithio dy noddi.
- **Bydd yn ymwybodol o gyfleoedd.** Cofrestra i dderbyn hysbysiadau am swyddi ar y Parth Cyflogaeth a byrddau swyddi eraill. Dilyna gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â chyflogadwyedd. Gwna'n siŵr os hysbysebir dy swydd ddelfrydol mai ti yw'r cyntaf i glywed amdani.
- **Rho wybod iddynt dy fod yn gymwys i weithio yn y DU.** Waeth beth yw dy statws fisa nawr, pan fyddi di'n graddio byddi di naill ai'n gallu chwilio am nawdd neu'n ymgeisio am Fisa Graddedigion.
- **Dylet ti feithrin rhwydwaith cymorth.** Gall dod o hyd i'r cyfleoedd cywir i raddedigion fod yn anodd. Siarada â dy gyfoedion, dy ddarlithwyr a dy rwydwaith ehangach am y math o waith rwyt ti'n chwilio amdano.

**Os oes angen cymorth arnat, trefna apwyntiad gyda Chynghorydd Gyrfa:**

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Swansea Employability Academy
Academi Cyflogadwyedd Abertawe

# GWEITHIO YN Y DEYRNAS UNEDIG

# CANLLAW I FYFYRWYR RHYNGWLADOL

myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd

employmentzone@abertawe.ac.uk

Funded by:
UKCISA UK Council for International Student Affairs
#WeAreInternational
Grants scheme

Rhagor o wybodaeth